



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Deddf Trais yn erbyn Menywod,
Cam-drin Domestig a Thrais
Rhywiol (Cymru) 2015:

**Canllawiau ar gyfer
Strategaethau Lleol**

Cynulleidfa	Pawb sy'n ymwneud â datblygu strategaethau lleol o dan adran 5 Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), gan gynnwys arweinwyr gwasanaethau awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ym meysydd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
Trosolwg	Diben y canllawiau hyn yw cynorthwyo awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol a'u partneriaid i ddatblygu strategaethau lleol sy'n cydymffurfio â gofynion y Ddeddf ac yn hyrwyddo ei dibenion.
Camau i'w cymryd	Dylid defnyddio'r canllawiau hyn fel sail i gynllunio a datblygu'r strategaethau lleol sy'n ofynnol gan y Ddeddf.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y canllawiau hyn at: Tim VAWDASV Yr Isadran Gymunedau Llywodraeth Cymru Parc Busnes Rhydycar Merthyr Tudful CF48 1UZ E-bost: drwy VAWDASV.LlywodraethCymru-WelshGovernment@wales.gsi.gov.uk
Copïau ychwanegol	Dim ond ar fformat digidol y mae'r ddogfen hon ar gael.
Dogfennau cysylltiedig	Y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-2021

Canllawiau ar gyfer Strategaethau Lleol Ionawr 2018

Cynnwys

1. Rhagarweiniad
2. Dyletswyddau i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol o dan y Ddeddf
3. Ymgysylltu a chynnwys pobl
4. Cynnwys strategaethau lleol
5. Rhaglenni gwaith cenedlaethol
6. Monitro a gweithredu
7. Swyddogaeth y Cyngorydd Cenedlaethol

Atodiad 1 Adnoddau

1. Rhagarweiniad

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol baratoi strategaeth ar gyfer yr ardal awdurdod lleol i ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Diben y Ddeddf yw gwella:

- Trefniadau i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- Trefniadau i ddiogelu dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- Cefnogaeth i bobl sy'n dioddef oherwydd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r Ddeddf yn ymwneud â phob ffurf ar drais ar sail rhywedd gan gydnabod bod dynion a menywod fel ei gilydd yn dioddef oherwydd trais; yn dioddef bygythiadau o drais neu aflonyddu yn deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol; a phriodas dan orfod hefyd. Mae'r canllawiau'n adlewyrchu hynny ac er bod y canllawiau'n cyfeirio at "drais yn erbyn menywod", dylid cymryd y bydd hyn yn cynnwys hefyd ddynion sy'n dioddef trais ar sail rhywedd oni bai bod y cyd-destun yn awgrymu fel arall.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn seiliedig ar y tri maes hyn¹. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016, ac mae'n amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru'n cyfrannu at gyflawni diben y Ddeddf. Dylai partneriaid ystyried a datblygu eu strategaethau a'u polisiau eu hunain yng ngoleuni'r amcanion a amlinellir yn y Strategaeth Genedlaethol.

Rydym yn cydnabod y cyfraniad amhrisiadwy gan sefydliadau eraill, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus, partneriaid datganoledig ac annatganoledig, sefydliadau arbenigol annibynnol ym meysydd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a mudiadau cyffredinol o'r sector gwirfoddol, sy'n hollbwysig i geisio cyflawni diben y Ddeddf. Hoffai Llywodraeth Cymru gydweithredu â'r holl bartneriaid hyn i weithio tuag at ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd.

¹ <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-cy.pdf>

Diben y canllawiau

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyhoeddi strategaethau lleol ar y cyd i ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Diben y canllawiau hyn yw cynorthwyo awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol a'u partneriaid i ddatblygu strategaethau lleol sy'n cydymffurfio â gofynion a dibenion y Ddeddf.

Dylid defnyddio'r canllawiau hyn fel sail i gynllunio, datblygu ac adolygu'r strategaethau lleol sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

2. Dyletswyddau i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol o dan y Ddeddf

Dyletswydd i baratoi strategaethau lleol

Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi, cyhoeddi a gweithredu strategaethau lleol ar y cyd i ymdrin â thrais yn erbyn menywod, trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Er bod y Ddeddf yn cyfeirio at un awdurdod lleol yn cyhoeddi strategaeth leol gyda'u Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol, nid yw hyn yn golygu na chaiff awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol weithio'n rhanbarthol a pharatoi strategaethau "rhanbarthol" i fodloni'r rhan hon o'r Ddeddf. Mae nifer o awdurdodau lleol eisoes wedi ffurfio rhanbarthau (Cwm Taf, Gwent), ac wedi drafftio strategaethau yn unol â hynny.

Gall strategaethau rhanbarthol ganfod blaenoriaethau strategol lefel uchel a darparu cynllun cyflawni rhanbarthol sy'n cynnwys camau gweithredu â ffocws lleol gan ddibynnu ar yr anghenion a ganfyddir.

Dyletswydd i ymgynghori

O dan adran 6 y Ddeddf, rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ymgynghori â phawb sy'n berthnasol cyn cyhoeddi eu strategaethau lleol.

Dylai hyn ddigwydd ar ffurf ymgynghoriad ffurfiol, a fyddai ar agor yn ddelfrydol am 12 wythnos gan roi cyfleoedd i ddosbarthu'r drafft at ddiben ymgynghori a chaniatáu i bartneriaid a goroeswyr gyfrannu at ddatblygu'r strategaeth. Gellid gwneud hyn mewn cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb, grwpiau ffocws, ac arolygon ar-lein.

Bydd safbwyntiau goroeswyr, darparwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid cyffredinol a chomisiynwyr yn golygu y gellir cael golwg eang ar yr hyn sy'n gweithio'n dda, beth yw'r bylchau yn y ddarpariaeth a ble ceir cyfleoedd i wella. Mae'n bwysig bod yr ymgysylltu'n ystyrllon ac yn barhaus (nid ymarfer 'untro'). Gweler yr adran 'Ymgysylltu a chynnwys pobl' isod ar dudalen 9.

Gwaith partneriaeth effeithiol: Arfer da

Er mwyn ymateb yn effeithiol i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn aml bydd angen cydweithrediad amlasiantaethol.

Mae pobl sydd wedi profi cam-drin domestig yn dweud wrthym fod ymatebion amlasiantaethol yn gweithio oherwydd dim ond unwaith y mae'n rhaid iddynt ddweud hanes eu camdriniaeth, maent yn cael cymorth y tro cyntaf iddynt ddweud wrth unrhyw un ac maent yn cael yr un ymateb cydgysylltiedig gan bob asiantaeth.

Er mwyn galluogi ymateb cyfannol ac effeithiol i hybu diogelwch unigolion sy'n wynebu risg o bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae'n hollbwysig bod gwasanaethau cyhoeddus a mudiadau trydydd sector yn cydweithio mewn partneriaeth.

Dylai strategaethau lleol ddangos sut y mae gwaith partneriaeth a chydweithio'n gwella gwasanaethau i ddioddefwyr a goroeswyr.

Asesiadau o anghenion

Mae angen dadansoddiad o anghenion i ganfod yr anghenion a'r ddarpariaeth yn lleol o ran gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'n bwysig seilio arferion ar ystadegau demograffig lleol, i sicrhau bod y gwasanaethau ar gael i holl aelodau'r gymuned a'u bod yn manteisio arnynt. Rhaid i ddiwallu anghenion y gymuned gyfan fod yn flaenoriaeth. Bydd cynnal asesiad o effaith y gwasanaethau a ddarperir ar gydraddoldeb yn helpu i ganfod unrhyw angen sydd ddim yn cael ei ddiwallu.

Dylai'r bartneriaeth ddefnyddio profiadau defnyddwyr gwasanaeth yn rheolaidd ac yn systematig i gael gwybod am effeithiau eu gwaith ac i awgrymu gwelliannau. Dylai hyn gynnwys dysgu o Adolygiadau Dynladdiadau Domestig ac Adolygiadau Ymarfer Plant.

Dylai'r awdurdodau perthnasol sy'n gweithio mewn partneriaeth weithio i greu set ddata a chyfrannu ati er mwyn monitro, llywio a datblygu eu hymateb. Mae'n hanfodol sicrhau y glynir wrth y Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Dylid casglu a dadansoddi'r wybodaeth hon fel rhan o'r broses o reoli perfformiad y bartneriaeth. Dylai'r awdurdodau perthnasol greu mesurau deilliannau i farnu eu heffeithiolrwydd. Gweler tudalen 16 isod i gael rhagor o wybodaeth am hyn.

Pecyn Offer Sefydliad Banc Lloyds

Mae Pecyn Offer Sefydliad Banc Lloyds ar gomisiynu yn adnodd defnyddiol. Mae'r pecyn yn dweud fel a ganlyn:

" The needs assessment process aims to provide a comprehensive understanding of current and future needs of local people. A needs assessment that has been completed in collaboration with partners and stakeholders will help to ensure a practical understanding of the specific and varying needs of those affected by violence against women, domestic abuse

and sexual violence to inform strategy development and commissioning to improve outcomes and reduce inequalities."²

Wrth ddatblygu strategaethau lleol, mae adran 7 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ystyried yr asesiadau diweddaraf o anghenion a gynhaliwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r asesiadau strategol o dan a6 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy'n ymwneud â lleihau troseddu ac anhrefn, brwydro yn erbyn camddefnyddio sylweddau a lleihau aildroseddu. Bydd camau gweithredu sy'n seiliedig ar asesiadau cadarn o anghenion yn sicrhau ffocws ar anghenion allweddol eich ardal.

Dylid defnyddio data yn llawn o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys asesiadau cymunedol sy'n bodoli eisoes, megis yr Asesiadau Llesiant Lleol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chynllun Heddlu a Throseddu eich ardal.

Dylid defnyddio data gan ddarparwyr gwasanaethau rheng flaen fel sail i'r asesiad o anghenion lleol, yr adnoddau sydd ar gael a'r bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir y dylai'r strategaeth leol a'r trefniadau comisiynu fod yn ceisio eu llenwi. Bydd hyn yn osgoi unrhyw ddyblygu diangen drwy sicrhau y defnyddir data sy'n bodoli eisoes os yw ar gael.

Bydd dealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion dioddefwyr a goroeswyr, gwasanaethau cefnogi i blant a theluoedd a gwasanaethau cyflawnwyr trais yn yr ardal leol yn helpu i ategu trefniadau comisiynu rhanbarthol i ddylunio, cynllunio a darparu gwasanaethau effeithiol.

Rydym yn cydnabod y gallai fod bylchau'n bodoli o ran darparu data dibynadwy a chyson, felly dylech sicrhau y cynhelir ymgynghoriadau cynhwysfawr ac y cymerir camau i lenwi'r bylchau gwybodaeth.

Gallai'r rhain gynnwys:

- Ymarfer cynhwysfawr i fapio adnoddau i ategu dadansoddiad o fylchau a chynhyrchu cyfeiriadur o wasanaethau'r ardal gyfan;
- Uno systemau gwybodaeth data'r trydydd sector er mwyn darparu gwybodaeth fwy ystyrlon a
- Datblygu fframwaith clir a chyson ar gyfer perfformiad a deilliannau

Arweiniad gan Sefydliad Banc Lloyds

"An effective needs assessment should gather together local data, evidence from professionals and survivors and review research and best practice.

Sources could include:

- qualitative and quantitative data from public services – in particular social care, housing and homelessness;

² https://www.lloydsbankfoundation.org.uk/VAWDASV%20Toolkit_Wales_web.pdf

- data from specialist agencies about what is leading survivors to make contact, and any reasons why they have not been able to provide a service to an individual or family;
- evidence of need from the health sector to include AandE, maternity services,
- primary care and mental health;
- demographics of the population together with needs data from other sources to help extrapolate local levels of need;
- findings from Domestic Homicide Reviews (DHRs) and serious case reviews; and

qualitative data from survivors and those at risk of violence against women, domestic abuse and sexual violence.”³

Dylai'r strategaeth ddangos sut mae'r data wedi'u dadansoddi a'u deall a sut y defnyddir hyn i lunio gwasanaethau, ac ymdrin ag anghenion a bylchau a ganfyddir.

3. Ymgysylltu a chynnwys pobl

Dylid ymgysylltu mewn modd ystyrlon a chynhwysol fel rhan allweddol o'r broses o ddatblygu strategaethau, gan sicrhau bod rhanddeiliaid, darparwyr a goroeswyr yn cael eu cynnwys. Dylid defnyddio amrywiaeth o ddulliau i roi cyfle i wahanol grwpiau ac unigolion i gyfrannu. Gallai hyn gynnwys arolygon ar-lein, grwpiau ffocws a chyfweiliadau.

Dylai fod yn glir sut y defnyddiwyd yr adborth hwn i lunio eich strategaeth.

Diwallu anghenion goroeswyr/pobl â phrofiadau personol o fathau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Dylai awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol, wrth baratoi a gweithredu eu strategaethau lleol, ganolbwyntio ar wahanol anghenion dioddefwyr a goroeswyr, cydnabod bod rhywedd yn ffactor pwysig i'w ystyried a sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn adlewyrchu hynny. Os yw'r dystiolaeth yn dangos bod angen gwasanaethau rhyw benodol, dylai strategaethau lleol adlewyrchu hyn, gan gydnabod bod angen gwahanol wasanaethau ar y grwpiau hyn.

Rhaid i leisiau a phrofiadau goroeswyr fod yn ganolog i ddatblygu strategaethau a'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod systemau, prosesau a gwasanaethau'n diwallu anghenion goroeswyr yn y modd gorau posibl.

“...survivors’ experiences of protection and support services and systems in Wales are key to understanding their effectiveness and to informing practice and service improvements. Survivors’ voices and experiences are also essential to informing prevention work and to ensuring that legislative and

³ ibid

policy developments, the National Strategy and National Adviser's Plan place survivors' needs and experiences at the centre."⁴

Ar ddechrau 2016, cafodd goroeswyr trais a chamdriniaeth eu gwahodd i grwpiau ffocws ym mhob rhanbarth yng Nghymru i helpu i gyfrannu at flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Bu chwe deg chwech o oroeswyr, a oedd wedi profi amrywiaeth o drais a chamdriniaeth gan gynnwys cam-drin domestig, trais rhywiol, priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu benywod, 'trais ar sail anrhydedd', cam-fanteisio rhywiol, masnachu pobl a cham-drin plant yn rhywiol, mewn grwpiau ffocws ledled Cymru. Darparwyd adroddiad ynglŷn â'r canfyddiadau a'u hargymhellion i Lywodraeth Cymru.⁵

Gwnaeth goroeswyr nifer o argymhellion ynglŷn â sut i wella gwasanaethau. Roeddent yn dweud ei bod yn bwysig rhoi sylw i anghenion yr holl oroeswyr wrth ddatblygu strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys goroeswyr mewn lleoliadau gwledig a threfol, yng nghymunedau Pobl Dduon a lleiafrifoedd ethnig a rhai sy'n wynebu problemau o ran mewnfudo, goroeswyr sy'n anabl, sy'n ifanc neu'n hŷn, sy'n lesbiaidd, yn ddeurywiol, yn hoyw neu'n drawsryweddol, a goroeswyr sydd, oherwydd eu profiadau yn eu bywydau, yn cael eu diffinio gan asiantaethau fel rhai sydd ag anghenion lluosog a/neu gymhleth (er enghraifft, os oes ganddynt anghenion iechyd meddwl neu anghenion camddefnyddio sylweddau, os ydynt yn ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol neu'r diwydiant rhyw, os ydynt yn ddigartref neu yn y system gofal).

Mae'r argymhellion yn cynnwys gwasanaethau penodol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gwasanaethau i blant, iechyd, tai a darparu lloches, gwaith gyda chyflawnwyr trais, hyfforddiant, cyhoeddusrwydd ac addysg. Mae manylion yr argymhellion i'w cael yn yr adroddiad.

Dylid defnyddio'r argymhellion hyn, a'r egwyddorion a amlinellwyd gan oroeswyr, fel sail i ddatblygu strategaethau lleol. Lle bo angen, dylai awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ganfod partneriaid perthnasol a gweithio gyda hwy i roi sylw i'r argymhellion a wnaethpwyd. Dylai fod ymgysylltu â goroeswyr yn broses barhaus sy'n rhoi sail i ddatblygu polisiau a gwasanaethau.

4. Cynnwys strategaethau lleol

Gall strategaeth leol gynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â chymau penodol y mae'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol dan sylw yn disgwyl iddynt gael eu cymryd yn ardal yr awdurdod gan unrhyw awdurdod cyhoeddus, unrhyw

⁴ Are you listening and am I being heard? Survivor Consultation: A report of the recommendations of survivors of violence against women, domestic abuse and sexual violence in Wales, March 2016: Cymorth i Ferched Cymru / Welsh Women's Aid <http://www.rhianbowendavies.com/wp-content/uploads/2016/09/Are-you-listening-and-am-I-being-heard-FINAL-July-2016.pdf>

⁵ Ibid

fudiad trydydd sector neu unrhyw unigolyn arall a all gyfrannu at geisio cyflawni diben y Ddeddf.

Dylai strategaethau lleol hefyd amlinellu sut y bydd yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol yn cyfrannu at drefniadau comisiynu rhanbarthol i ddylunio, cynllunio a chyflawni gwasanaethau effeithiol ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a thrais ar sail rhywedd, a sut y byddant yn helpu i roi'r trefniadau hyn ar waith.

Er ei bod yn bwysig bod strategaethau'n cydnabod ac yn cyfleu profiadau anghymesur menywod a merched, ni ddylent ddiystyru trais a cham-drin wedi'i gyfeirio at ddynion a bechgyn neu wedi'i gyflawni gan fenywod. Dylai strategaethau gydnabod bod unrhyw un (menywod, dynion, plant a phobl ifanc) yn gallu profi, neu deimlo effeithiau, cam-drin domestig, trais rhywiol ac ymosod rhywiol, cam-drin rhywiol, priodas dan orfod, cam-drin plant yn rhywiol, stelcio ac aflonyddu, aflonyddu rhywiol a cham-fanteisio rhywiol. Gall hyn ddigwydd mewn unrhyw berthynas, i bobl o unrhyw ryw, oed, ethnigrwydd, rhywedd, rhywioldeb, anabled, crefydd neu gred, incwm, daearyddiaeth neu ffordd o fyw.

Dylai strategaethau lleol gynnwys darpariaeth ar gyfer pawb a phob gweithred o gam-drin/trais sy'n berthnasol i'r Ddeddf.

Cysylltiadau â'r Strategaeth Genedlaethol

Mae'n ofynnol i chi ystyried yr amcanion sydd wedi'u hamlinellu yn y Strategaeth Genedlaethol wrth ddrafftio eich strategaeth leol.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn amlinellu chwe amcan y mae Gweinidogion Cymru'n disgwyl eu cyflawni erbyn mis Tachwedd 2021, wedi'u grwpio o dan dri diben y Ddeddf:

Atal

Atal yw un o'r dibenion allweddol sydd wedi'u hamlinellu yn y Ddeddf; dylai strategaethau lleol amlinellu mesurau ataliol. Gallai hyn gynnwys amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud i gyfrannu at gyflawni'r nod atal - megis rhaglenni cyflawnwyr trais, mentrau addysg ac ysgolion ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth - gan ddibynnu ar ganlyniad yr asesiad o anghenion.

Amcan 1 - Cynyddu ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru, a herio agweddau

Amcan 2 - Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthynas ddiogel, gyfartal ac iach ag eraill, a bod ymddygiad sy'n arwain at gam-drin yn anghywir bob amser

Amcan 3 – Rhoi mwy o sylw i ddwyn cyflawnwyr i gyfrif am eu gweithredoedd a darparu cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad ar sail diogelwch dioddefwyr

Amcan 4 - Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar a chymryd camau ataliol

Amddiffyn

Mae amddiffyn yn agwedd hollbwysig ar ein gwaith; mae angen i wasanaethau cyhoeddus gydweithio i amddiffyn pobl sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar hyn o bryd rhag dioddef dim mwy o niwed, a diogelu unrhyw blant sydd yn lleoliad y teulu. Argymhellir sefydlu dull o weithredu sy'n cwmpasu systemau cyfan wrth reoli risg ar draws nifer o asiantaethau er mwyn lleihau'r rheidrwydd i reoli argyfwng lle bo modd a lle bo'n berthnasol.

Mae hyn yn golygu bod angen ymateb cydlynol a chydweithredol; bydd arbenigedd a phrofiad y sector arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a goroeswyr yn hollbwysig er mwyn i ni lwyddo.

Amcan 5 - Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr

Cymorth

Mae cefnogi pobl sy'n dioddef oherwydd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gallu bod yn gymhleth, oherwydd mae profiadau ac anghenion pobl yn gallu amrywio'n fawr. Fodd bynnag, mae angen i ni hybu diwylliant cefnogol, yn seiliedig ar ystod o wasanaethau sydd yn y sefyllfa orau bosibl i ymateb i anghenion unigolion a theuluoedd.

Nod Llywodraeth Cymru yw annog gwasanaethau sy'n effeithiol, yn cael eu cynnal ac o safon gyson uchel ledled Cymru. Mae ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth yn allweddol i sicrhau bod pobl sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael y gwasanaethau mwyaf effeithiol posibl.

Rydym yn gwybod bod *sut* y darperir gwasanaethau yr un mor bwysig â *beth* a ddarperir. Mae angen ymatebion amserol sy'n ymateb i anghenion lluosog heb farnu. Mae angen i ni gefnogi goroeswyr ar hyd llwybr sy'n aml yn gymhleth tuag at wasanaethau a'u cefnogi i ddatblygu strategaethau ymdopi cadarnhaol, a'u galluogi i ymrymuso a'u diogelu eu hunain.

Amcan 6 - Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau ledled Cymru sy'n gyfannol, yn cael adnoddau priodol, o safon uchel, wedi'u harwain gan anghenion, yn seiliedig ar gryfderau ac yn ymateb i rywedd

5. Rhaglenni gwaith cenedlaethol

I hybu dibenion y Ddeddf, rydym yn rhoi nifer o raglenni ar waith ac yn cymryd nifer o gamau, gan gydweithio â'r sector cyhoeddus a mudiadau trydydd sector. Wrth ddrafftio eich strategaeth, dylech ystyried sut y gallwch gyfrannu at y rhain a manteisio arnynt er mwyn cyflawni eich dyletswyddau o dan y Ddeddf.

Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol

Y Fframwaith yw un o'r mecanweithiau allweddol er mwyn rhoi'r Ddeddf ar waith. Y nod yw creu safon gyson o ofal i bobl sy'n profi trais yn erbyn

menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a safon ddibynadwy o wasanaeth drwy'r sector cyhoeddus i gyd i'r grŵp hwn o gleientiaid.

Bydd y Fframwaith yn sicrhau bod hyfforddiant cyson o safon uchel ar gael i bobl ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector arbenigol. Mae'n amlinellu'r gofynion hyfforddiant ar gyfer pob swyddogaeth o fewn Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys hyfforddiant codi ymwybyddiaeth i'r holl staff, helpu gweithwyr proffesiynol i ymdrin â datgelu camdriniaeth a sicrhau bod hyfforddiant cyson ar gael i weithwyr proffesiynol arbenigol.

Mae'r pecyn e-ddysgu yn rhan allweddol o'r Fframwaith. Bydd yr e-ddysgu hwn yn codi ymwybyddiaeth chwarter miliwn o weithwyr gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Rydym hefyd wedi cyflwyno "Gofyn a Gweithredu". Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr proffesiynol fel ymwelwyr iechyd a swyddogion tai ganfod arwyddion cam-drin a gofyn i gleientiaid a ydynt yn cael eu cam-drin. Mae'n ofynnol iddynt gynnig atgyfeiriadau, ymyriadau neu gefnogaeth arbenigol gan ddibynnu ar yr hyn sydd ei angen arnynt.

Mae'r Fframwaith yn amlinellu cyfres o ofynion i'r awdurdodau perthnasol o dan y Ddeddf o ran darparu hyfforddiant, a safon yr hyfforddiant, ynglŷn â'r materion hyn.

Rhaid i'r cynllun hyfforddiant lleol sy'n ofynnol o dan y Fframwaith fod yn rhan o'ch strategaeth leol.⁶

Addysg

Er mwyn gweithio tuag at atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y dyfodol, rhaid i ni ganolbwyntio ar blant, i wneud yn siŵr eu bod yn deall beth yw perthynas iach a sut i ganfod symptomau perthynas sydd ddim yn iach.

I gynorthwyo ysgolion a sefydliadau addysg bellach i hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb rhwng y rhywiau a pherthnasoedd iach, lle dangosir parch, rydym wedi cyhoeddi Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan⁷, a gynhyrchwyd gan Gymorth i Ferched Cymru; canllawiau codi ymwybyddiaeth i lywodraethwyr ysgol⁸ ac adolygiad o adnoddau, gwybodaeth a chanllawiau wedi'i gynhyrchu gan Gymorth i Ferched Cymru ac AVA (Yn Erbyn Trais a Cham-drin)⁹.

Caiff ymateb Llywodraeth Cymru i'r Panel Arbenigol ei gyhoeddi ddechrau'r gwanwyn.

⁶ <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/160317-national-training-framework-guidance-cy.pdf>

⁷ <http://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/good-practice-guide-a-whole-education-approach?lang=cy>

⁸ <http://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/vawda-guide-for-governors?lang=cy>

⁹ <http://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/violence-teaching-resources?lang=cy>

Sefydlwyd y panel arbenigol i helpu i gyfrannu at ddatblygu'r cwricwlwm Rhyw a Chydberthynas newydd fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles ac i ganfod materion a chyfleoedd a allai roi sail i benderfyniadau i gynorthwyo'r proffesiwn addysgu i ddarparu addysg Rhyw a Chydberthynas o safon uchel mewn ysgolion yn fwy effeithiol.

Cyhoeddodd Estyn adolygiad thematig o'r ddarpariaeth addysg ar Gydberthynas Iach, ac effaith yr addysg, mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ym mis Mehefin 2017.¹⁰ Mae'r adroddiad wedi'i anelu at Lywodraeth Cymru, penaethiaid, llywodraethwyr, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Rydym yn awgrymu eich bod yn ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad wrth ddrafftio eich strategaeth leol. Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017 ac mae ar gael yn: <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/raisingstandards/estynremit/estynreports/a-review-of-healthy-relationships-education/?lang=cy>

Rhanbartholi

Dylai strategaethau lleol hefyd amlinellu sut y bydd yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cyfrannu at drefniadau comisiynu rhanbarthol i ddylunio, cynllunio a chyflawni gwasanaethau effeithiol ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a sut y byddant yn helpu i roi'r trefniadau hyn ar waith. Ym mis Ebrill 2018, dechreuir cyflwyno dulliau ariannu rhanbarthol ar gyfer y Grant Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol er y bydd 2018-19 yn cael ei hystyried yn flwyddyn drosiannol. Rhagwelir y bydd troi at ddulliau rhanbarthol yn helpu i gysoni cyllid â chyfeiriad polisi, gan gynnwys y Ddeddf; yn sicrhau gwell ffocws ar ddarparu gwasanaethau; ac yn hwyluso mwy o werth am arian a hyblygrwydd i wasanaethau a ariennir yn rhanbarthol i ddiwallu anghenion lleol.

Dylai eich strategaeth leol ystyried eich cynlluniau i weithio'n rhanbarthol a'r cynllun cyflawni a gyflwynwyd i ni o dan y Grant.

Gweithio rhanbarthol – materion i'w hystyried:

- Wrth gynnal asesiadau o anghenion ac asesiadau lles, ynghyd â mapio gwasanaethau a dadansoddi bylchau, a oes cymariaethau rhesymegol ag ardaloedd awdurdod lleol cyfagos (e.e. rhannu darparwyr gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, materion poblogaeth tebyg ac ati)?
- Beth yw'r drefn 'naturiol' i bobl yn eich ardal awdurdod lleol e.e. i ble mae pobl yn tueddu i fynd i gael gwasanaethau sydd ddim ar gael yn lleol (megis ysbytai, siopa, neu hamdden) yn seiliedig ar ystyriaethau daearyddol, economïau maint neu faterion trafndiaeth?
- Pa drefniadau a pherthnasoedd sy'n bodoli eisoes ar gyfer gwasanaethau 'gofal cymdeithasol' ar y cyd neu drawsffiniol (e.e. BILI, trefniadau

<https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/A%20review%20of%20healthy%20relationships%20education%20cy.pdf>¹⁰

gwasanaethau cymdeithasol, byrddau diogelu, Cefnogi Pobl, Iechyd Meddwl, Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, Byrddau Cynllunio Ardal ac ati) a pha rai o'r rhain sy'n gweithio fwyaf effeithiol?

- Pa drefniadau cyfiawnder troseddol trawsffiniol sy'n bodoli eisoes (ardaloedd heddlu a chomisiynwyr heddlu a throsteddu), trefniadau gweithio'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, llysoedd arbenigol trais domestig, Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd a Chynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg, cynlluniau a phrosiectau rheoli troseddwyr?
- Pa rwydweithiau trawsffiniol (e.e. trydydd sector, defnyddwyr gwasanaeth) sydd eisoes yn bodoli ac yn gweithio'n effeithiol?
- Pa gyfleoedd sydd am drefniadau llywodraethu trawsffiniol priodol (e.e. byrddau gwasanaethau cyhoeddus, partneriaethau diogelwch cymunedol, pwyllgorau cydweithio rhanbarthol ac ati)?
- Pa seilwaith cydlynu a chomisiynu sydd eisoes yn bodoli, yn lleol ac mewn ardaloedd awdurdodau cyfagos, y gellid ei gyfuno (e.e. a yw'r awdurdod neu gymydog eisoes yn gweithredu fel 'bancer' neu arweinydd caffael ar y cyd dros ardal arall sy'n darparu gwasanaeth?), a oes timau amlddisgyblaethol yn ymwneud â chynllunio gofal cymdeithasol, dylunio gwasanaethau a chomisiynu?

Materion i'w hystyried

Gwerthusiad Cynllun Braenaru Gwent

Cyhoeddodd Cordis Bright eu gwerthusiad o fodel rhanbarthol Gwent ym mis Ebrill 2016¹¹. Mae pennod 12 yn sôn am wersi ar gyfer ardaloedd eraill wrth ddatblygu model rhanbarthol, ac mae 12.2 yn nodi'r gwersi allweddol. Dylech ystyried y rhain wrth ddrafftio eich strategaeth leol a mireinio eich cynlluniau ar gyfer gwaith rhanbarthol.

Gweithio ar y cyd

Dylai strategaethau lleol adlewyrchu gwaith ar y cyd ac yn benodol, camau a gymerir gan awdurdodau cyhoeddus eraill, mudiadau gwirfoddol neu unrhyw un arall sy'n cyfrannu at ddiben y Ddeddf. Dylai hyn gynnwys cynorthwyo â threfniadau comisiynu rhanbarthol i ddylunio, cynllunio a chyflawni gwasanaethau effeithiol ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae gan wasanaethau cyhoeddus, mudiadau cymunedol a'r trydydd sector a gwasanaethau arbenigol annibynnol ym meysydd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i gyd ran allweddol i'w chwarae o ran darparu ystod o opsiynau cefnogaeth. Bydd dull gweithio ar y cyd yn sicrhau gwell ffocws ar ddarparu gwasanaethau ac yn hwyluso mwy o werth am arian a hyblygrwydd i wasanaethau a ariennir i ddiwallu anghenion lleol.

¹¹ Bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol De Ddwyrain Cymru, Gwerthuso'r model rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Cordis Bright, Ebrill 2016

Mae angen dull integredig i ddiweddu pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, o arweinwyr i weithwyr proffesiynol rheng flaen i brif-ffrydio a blaenoriaethu'r mater i sicrhau ei fod yn "fusnes pawb".

Felly, dylech weithio gyda'r Heddlu, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, gwasanaethau addysg, sefydliadau tai, y trydydd sector, gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, goroeswyr, ac asiantaethau cyfiawnder a throseddu annatganoledig eraill megis y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru i ddrafftio eich strategaeth a'i rhoi ar waith.

Fframwaith Ymgysylltu â Goroeswyr

Cyhoeddwyd gwybodaeth am ein cynlluniau ar gyfer fframwaith ymgysylltu â goroeswyr ym mis Awst 2017 ac rydym wedi dechrau'r gwaith cychwynnol o ddatblygu'r fframwaith hwn.

Y nod yw creu'r fframwaith mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o oroeswyr, tystion a phobl eraill y mae hyn wedi effeithio arnynt, gan gynnwys cynrychioli'r holl nodweddion gwarchoddedig a phobl ag anghenion cymhleth ac amlweddog.

Mae gwranddo ar oroeswyr, a gweithredu ar sail eu profiadau, yn hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau wedi'u cynllunio i fod yn effeithiol, yn ymatebol ac yn gyson.

Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

Ceir mwy a mwy o ymchwil i effeithiau hirdymor profiad o sefyllfaoedd o straen cronig yn ystod plentyndod. Gall hyn gynnwys tyfu ar aelwydydd lle mae plant yn dod i gysylltiad rheolaidd â materion megis cam-drin domestig, neu gamddefnyddio alcohol neu gyffuriau. Yr enw ar y mathau hyn o straen gyda'i gilydd yw Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, ac mae'r profiadau hyn yn gallu cael effaith ddifrifol ar gyfleoedd plant yn ddiweddarach yn eu bywydau.

Mae plant a phobl ifanc sy'n cael eu magu yn yr amgylcheddau hyn yn fwy tebygol o'i chael yn anodd cyflawni canlyniadau cadarnhaol hirdymor ac yn debygol iawn o fagu eu plant eu hunain mewn amgylchedd lle mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn gyffredin, gan greu cylch o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd sy'n anodd ei dorri.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynhyrchu cyfres o adroddiadau i archwilio mynychder Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ymysg oedolion Cymru a'u heffaith ar iechyd a lles drwy gydol bywyd¹².

Mae atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn gallu dod â budd sylweddol i deuluoedd ac unigolion, yn ogystal ag i gymunedau ehangach.

¹² <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/88518>

Dylai awdurdodau lleol ystyried sut y gall gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gyfrannu at ddarparu gwasanaethau sy'n helpu i atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ogystal â helpu i liniaru effeithiau'r profiadau hyn ar bobl sydd eisoes wedi eu cael.

Darpariaeth i Gefnogi Pobl sydd wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

Mae'r ddarpariaeth wedi'i sefydlu i helpu sefydliadau a chymunedau ledled Cymru i ddeall mwy am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'u heffeithiau, ac am y camau y gallant eu cymryd i ddeall mwy am y profiadau hyn. Os hoffech wybod mwy, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, gallwch gysylltu drwy ACE@wales.nhs.uk.

6. Monitro a Gweithredu

Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynnwys dangosyddion a mesurau deilliannau i ganfod effaith strategaethau lleol. Wrth wneud hyn, dylech ystyried y fframweithiau dangosyddion/deilliannau sy'n bodoli. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dangosyddion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Fframwaith perfformiad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deilliannau Iechyd Cyhoeddus (<http://gov.wales/docs/phhs/publications/160329frameworkcy.pdf>)
- Dangosyddion Iechyd Meddwl (<http://gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/?skip=1&lang=cy>)
- Fframwaith Deilliannau Cefnogi Pobl (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd)
- Y Fframwaith Dangosyddion Cyffredin a ddefnyddir gan raglenni megis Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf
- Fframwaith Dangosyddion Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cyfres o Ddangosyddion Cenedlaethol ac maent wedi ystyried sut y mae'r fframweithiau dangosyddion/deilliannau presennol yn cyfrannu at ddatblygu'r Dangosyddion Cenedlaethol.

Cyhoeddir y Dangosyddion Cenedlaethol yn 2018.

Llywodraethu'r Strategaethau ac Atebolrwydd

Mae gwaith ar y cyd ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn aml yn canolbwyntio ar fforymau amlasiantaethol sy'n dod â sefydliadau at ei gilydd i gefnogi pobl sy'n wynebu risg a rheoli eu hachosion. Mae hyn yn elfen sylfaenol a gofynnol er mwyn ymateb yn effeithiol i bobl sy'n wynebu risg.

Fodd bynnag, er mwyn i fforymau amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar gleientiaid weithio, mae angen eu harwain mewn modd strategol a sefydlu grwpiau gweithredol i'w monitro a'u llywodraethu. Mae angen

ymateb cyfunol a chydlynol ar draws gwasanaethau cyhoeddus er mwyn i ddiodefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gael ymateb sy'n gyson, yn effeithiol ac yn barhaus.

Wrth ystyried gwaith amlasiantaethol, mae'n bwysig ystyried arweinyddiaeth strategol mewn partneriaeth a chydweithio gweithredol i hybu cynnydd a sicrhau effeithiolrwydd.

Wrth weithio mewn partneriaeth, mae angen cyfathrebu'n effeithiol, cynnal cyfarfodydd a chynllunio mewn sawl maes: i ddatblygu fframweithiau strategol a gweithredol a llwybr gofal cyfunol ar gyfer pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; i rannu gwybodaeth a datblygu ymyriadau cydlynol mewn achosion penodol; ac yna i fonitro'r llwybr gofal ac adolygu deilliannau i ddatblygu'r ymateb.

Dylai partneriaethau strategol ddatblygu, cymeradwyo a monitro'r strategaeth leol. Dylai aelodau'r grŵp strategol ddod o lefel uchel yn yr awdurdodau perthnasol, gan gynnwys pobl sydd ag awdurdod i weithredu a gwneud penderfyniadau ar ran eu sefydliad. Mae angen eglurder ynglŷn â sut y mae unrhyw bartneriaeth yn cyd-fynd â'r strwythur llywodraethu lleol cyffredinol.

Mae'n bwysig cytuno sut y byddwch yn gwneud y canlynol:

- monitro eich strategaeth leol a llunio adroddiadau amdani, a sut y mae'r awdurdodau perthnasol yn cyflawni dibenion y Ddeddf;
- sicrhau bod unrhyw waith a champau ar y cyd wedi'u hadlewyrchu mewn strategaethau lleol;
- cyflawni camau a chyfrifoldebau a nodir drwy unrhyw bartneriaethau sydd wedi'u sefydlu, a bod yn atebol am y rhain;
- sicrhau cyfraniad rheolaidd gan ddefnyddwyr gwasanaeth;
- sicrhau llywodraethu priodol gan gynnwys y gofynion sylfaenol i aelodau, amllder cyfarfodydd, cyfrifoldeb am drefnu a chydlynu'r grŵp o ddydd i ddydd.

Mae cyfres gyffredin, integredig o ddeilliannau, a chyfres ddata gydgyssylltiedig, yn bwysig a dylent wneud y canlynol:

- monitro'r llwybr gofal;
- asesu a yw'r amcanion strategol yn cael eu bodloni;
- rhoi sail i waith y grŵp o oruchwylio cyflawni'r strategaeth leol;
- cynnwys gwybodaeth ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth;
- cynnwys cytundeb ar gyfres gyffredin o bolisiâu i'w defnyddio ar draws partneriaid, gan gynnwys asesu risg, rhannu gwybodaeth a hyfforddiant;
- cytundeb ynglŷn â sut y dylid ariannu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol a darparu prosesau sy'n rhoi gwerth am arian megis comisiynu ar y cyd neu drefniadau ariannu ar y cyd.

Mae'n bwysig bod aelodau o'r partneriaethau Strategol:

- yn sicrhau bod aelodau'r grŵp yn dod o lefel ddigon uchel ac yn cynnwys pobl sydd ag awdurdod ar ran eu sefydliad i sicrhau y gellir cyflawni pethau;
- yn gwahodd yr holl bartneriaid gofynnol, gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth prawf a mudiadau trydydd sector arbenigol ar lefel yr un mor uchel
- yn cytuno â chynllun gweithredu i gyflawni'r nodau strategol, gan roi manylion ynghylch pwy sy'n gyfrifol am gymryd y camau gweithredu;
- yn adolygu'r cynllun gweithredu'n chwarterol ac yn llunio adroddiadau blynyddol amdano fel rhan o ofynion adolygu'r strategaeth leol;
- yn casglu, dadansoddi a monitro'r holl wybodaeth am berfformiad a gwybodaeth ariannol yn erbyn y cynllun gweithredu; ac
- yn sicrhau eu bod yn sefydlu cytundeb ynglŷn â llwybr gofal i bob partner ei ddefnyddio ar gyfer pobl sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

7. Swyddogaeth y Cynghorwyr Cenedlaethol

Efallai y gall y Cynghorwyr Cenedlaethol gynorthwyo a chynghori awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ynglŷn â datblygu ac adolygu eu strategaethau i sicrhau y ceir cynlluniau strategol cyson o safon uchel ar gyfer y materion hyn ac i wella cydlynid a chysondeb.

Atodiad 1

Adnoddau

Sefydliad Banc Lloyds: Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Pecyn Offer Comisiynu ar y Cyd i Wasanaethau yng Nghymru Awst 2016

Cynhyrchwyd y pecyn offer hwn gan Sefydliad Banc Lloyds Cymru a Lloegr ar y cyd ag elusennau arbenigol trais yn erbyn menywod yn y DU. Y bwriad yw y bydd yn helpu asiantaethau yng Nghymru i gydweithio i ddarparu dulliau comisiynu effeithiol i sicrhau dyfodol iach i bawb sydd wedi dioddef oherwydd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r pecyn offer wedi'i anelu at y canlynol:

- Comisiynwyr y presennol a'r dyfodol
- Darparwyr gwasanaethau
- Llywodraeth Cymru, i helpu i gynorthwyo gweithredu lleol i sicrhau datrysiadau effeithiol a
- Pobl eraill â budd yn niogelwch a lles pobl leol.

https://www.lloydsbankfoundation.org.uk/VAWDASV%20Toolkit_Wales_web.pdf

Datganiad Disgwyliadau Cenedlaethol y Swyddfa Gartref ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a Merched Rhagfyr 2016

Mae'r datganiad disgwyliadau cenedlaethol yn egluro'r camau y dylai ardaloedd lleol eu cymryd i sicrhau bod dioddefwyr trais yn erbyn menywod a merched yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/574665/VAWG_National_Statement_of_Expectations_-_FINAL.PDF

Deddfwriaeth, Polisiâu a Strategaethau

Wrth ddatblygu strategaethau lleol, mae angen i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ystyried sawl darn o ddeddfwriaeth gan gynnwys y canlynol. Mae'r darnau mwyaf perthnasol wedi'u cynnwys ond nid yw'r rhestr yn cynnwys pob darn. Mae rhywfaint o'r ddeddfwriaeth a nodir yn rhoi dyletswyddau uniongyrchol i awdurdodau perthnasol neu gyrff cyhoeddus eraill.

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015¹³

Mae'r dyletswyddau sy'n ymwneud â strategaethau lleol wedi'u cynnwys yn adrannau 5 i 8 y Ddeddf.

¹³ <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/3/contents/enacted>

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Bwriad y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae angen i gyrrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf ddangos eu bod wedi defnyddio'r pump egwyddor o weithio (egwyddor datblygu cynaliadwy). Bydd dilyn y ffyrdd hyn o weithio'n helpu cyrrff cyhoeddus i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol ac ymateb i rai o'r heriau hirdymor sy'n ein hwynebu:

Hirdymor

Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.

Atal

Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl â budd mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

Integreiddio

Ystyried sut y gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrrff cyhoeddus eraill.

Cydweithio

Gwaith ar y cyd ag unrhyw unigolyn arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

Cynnwys pobl

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu fframwaith cyfreithiol i wella lles pobl (oedolion a phlant) ag angen gofal a chymorth a gofalu'r ag angen cymorth, ac i drawsffurfio gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod angen asesu anghenion y boblogaeth leol i roi sail i ddatblygu strategaethau lleol.

Deddf Tai (Cymru) 2014

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi mewn deddfwriaeth beth yw swyddogaeth yr awdurdod lleol o ran atal a lliniaru digartrefedd. Mae Adran 57 y Ddeddf hon yn pennu bod risg o gam-drin unigolyn neu aelod o aelwyd yr unigolyn hwnnw, gan gynnwys cam-drin domestig, yn ffactor wrth benderfynu a yw'n rhesymol parhau i ddefnyddio llety.

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn amlinellu darpariaeth benodol ar gyfer contractau ar y cyd a fydd yn helpu goroeswyr drwy dargedu cyflawnwyr trais i'w troi allan.

Mae rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth hanfodol i rai o'n pobl fwyaf agored i niwed – mae ei hymagwedd gref o atal ac ymyrryd cynnar yn adlewyrchu amcanion Deddf Tai (Cymru) 2014 ac agenda ddeddfwriaethol ehangach Llywodraeth Cymru.

Mae'r rhaglen yn cefnogi pobl o ystod o gategoriâu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu'n dod dros gyfnod o ddigartrefedd
- pobl sy'n dianc rhag trais domestig
- pobl â phroblemau iechyd meddwl
- pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau
- pobl ag anableddau dysgu
- mae cyfran sylweddol o'r bobl sy'n cael eu cefnogi'n bobl hŷn.

Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998

Mae Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ("Deddf 1998") yn amlinellu dyletswyddau awdurdodau cyfrifol o ran ymdrin â throsteddu ac anhrefn yn eu hardaloedd.

Yr enw cyfunol am awdurdodau cyfrifol ardal llywodraeth leol yw Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd yn cyflawni eu swyddogaethau statudol o dan eu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Deddf Troseddau Rhywiol 2003

Deddf i wneud darpariaeth newydd ar gyfer troseddau rhywiol, eu hatal a diogelu plant rhag niwed gan weithredoedd rhywiol eraill, ac at ddibenion cysylltiedig.

Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003

Mae'r Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Troseddau Difrifol 2015) yn gwneud y darpariaethau canlynol:

- mae'n ymestyn cyrhaeddiad alldiriogaethol y troseddau yn Neddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 fel eu bod yn berthnasol i drigolion sy'n preswyl fel arfer yn y DU, yn ogystal â thrigolion parhaol
- mae'n cyflwyno trosedd newydd o fethu ag amddiffyn merch rhag risg o anffurfio organau cenhedlu benywod
- mae'n caniatáu anhysbysrwydd i ddioddefwyr drwy gydol eu hoes
- mae'n cyflwyno gorchymyn sifil (gorchymynion amddiffyn rhag anffurfio organau cenhedlu benywod) i amddiffyn dioddefwyr posibl, ac
- mae'n cyflwyno dyletswydd ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol, athrawon a gweithwyr gofal cymdeithasol i hysbysu'r heddlu os ydynt yn gwybod am achosion o anffurfio organau cenhedlu benywod o dan 18 oed.

Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 a Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr (Diwygiadau) 2012

Mae hyn yn rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau perthnasol i gynnal Adolygiadau Dynladdiadau Domestig.

Mae'n rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol a'r staff hynny mewn adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n ymdrin â phlant, gofalwyr, oedolion agored i niwed a materion ehangach sy'n ymwneud â thrais domestig.

Deddf Priodas dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2017

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer amddiffyn unigolion rhag cael eu gorfodi i briodi heb gydsyniad rhydd a llawn ac ar gyfer amddiffyn unigolion sydd wedi cael eu gorfodi i briodi heb gydsyniad o'r fath; ac ar gyfer dibenion cysylltiedig.

Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer caethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur dan orfod neu orfodol ac ar gyfer masnachu pobl, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer amddiffyn dioddefwyr; yn darparu ar gyfer Comisiynydd Annibynnol Gwrth-gaethwasiaeth; ac ar gyfer dibenion cysylltiedig.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a rheoliadau dyletswyddau cydraddoldeb cysylltiedig sy'n benodol i sector cyhoeddus Cymru yn rhoi dyletswyddau i awdurdodau perthnasol yng Nghymru gan gynnwys y gofyniad i gyhoeddi amcanion cydraddoldeb. Mae'n ofynnol i awdurdodau gyhoeddi datganiad sy'n amlinellu'r camau a gymerwyd i gyflawni pob amcan cydraddoldeb a hefyd i fonitro'r cynnydd o ran cyflawni'r amcanion hynny. Bydd Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru (sydd o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol) yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus a chyflogaeth yn deg, yn hygyrch ac yn ymateb i anghenion pobl, a bod cymunedau'n gynhwysol.

Ni ddylid trin pobl yn llai ffafriol oherwydd eu rhywedd, eu hil, eu ffydd neu gred, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil, anabledd, nac am eu bod yn drawsryweddol. Mae'r nodweddion hyn sydd wedi'u gwarchod yn tanategu gwaith Llywodraeth Cymru, gan sicrhau dull cydgysylltiedig o gyflawni gwell canlyniadau i bobl Cymru.

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i bob awdurdod cyhoeddus, wrth gyflawni ei ddyletswyddau, roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu ar sail rhyw ac i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng menywod a dynion. Ynghlwm wrth hyn, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydnabod nad yw'r ddau grŵp yn dechrau o fan cychwynol cydradd ac na fydd yn briodol bob amser i'w trin yn yr un ffordd. Mae gwasanaethau ar sail un rhyw yn gyfreithlon lle mae'n gwbl glir bod angen hynny, megis lloches i fenywod, ac nid yw dyletswyddau cydraddoldeb yn golygu y dylid cwtogi ar wasanaethau ar gyfer un rhyw yn unig neu y dylai gwasanaethau gael eu darparu ar yr un raddfa ar

gyfer dynion a menywod o anghenraid, gan gydnabod mai menywod yw mwyafrif dioddefwyr trais domestig a thrais a chamdriniaeth rywiol.

Pobl Hŷn

Weithiau, ceir dryswch rhwng profiad o gam-drin domestig yn hwyr mewn bywyd a “cham-drin pobl hŷn” (term sy'n cynnwys pob math o drais, camdriniaeth ac esgeulustod sy'n digwydd i bobl hŷn). Mae'r dryswch hwn yn gallu golygu bod dioddefwyr camdriniaeth yn syrthio rhwng y systemau sydd wedi'u llunio i'w hamddiffyn, ac o ganlyniad nad ydynt yn cael y gefnogaeth briodol i'w helpu i atal y cam-drin neu i'w gwneud yn ddiogel.

Mae'r ystadegau'n cyd-fynd â hyn. Mae data diweddaraf y Swyddfa Gartref yn dynodi bod 28 o bobl hŷn (60+ oed) yng Nghymru a Lloegr wedi cael eu lladd gan aelod o'u teulu. Roedd hyn yn 24% o'r holl ddioddefwyr. Fodd bynnag, roedd y digwyddiadau cam-drin domestig yn ymwneud â phobl hŷn a gafodd eu cofnodi yn llai na 4% o'r holl ddigwyddiadau a gafodd eu cofnodi.

Mae'r profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gallu bod yn fwy niweidiol byth i ddioddefwyr os yw'n cyd-fynd ag anghenion cymhleth neu fregusrwydd arall. Er na ddylid homogoneiddio pobl hŷn fel “agored i niwed” neu “fregus”, mae'n bwysig bod Gwasanaethau Cyhoeddus a darparwyr y trydydd sector yn barod ac yn abl i gysylltu systemau diogelu i gynnig pecyn o gefnogaeth sy'n rhoi sylw i'r holl faterion a all fod yn wynebu unigolyn hŷn sy'n profi trais a chamdriniaeth.

Pobl BME

Mae ymchwil wedi canfod: “BME women are disproportionately affected by different forms of abuse e.g. forced marriage, honour based violence, FGM, sexual exploitation in the form of commercial sex work, trafficking etc. The multiple vulnerabilities from these overlapping contexts make it harder for women to flee violence.”¹⁴

Efallai y bydd rhwystrau eraill yn atal goroeswyr rhag chwilio am gymorth, megis gwahaniaethu ar sail hil, stereoteipio crefyddol, ofn cael eu dianrhydeddu a'u gwrthod gan eu cymuned, a statws mewnfudo ansicr; gallai'r rhain i gyd eu hatal rhag cael eu hamddiffyn.

Pobl anabl

Mae pobl anabl yn profi cyfraddau anghymesur o uchel o gam-drin domestig, ac maent hefyd yn profi cam-drin domestig am gyfnodau hwy, a chamdriniaeth fwy difrifol a mynych na phobl sydd ddim yn anabl. Mae menywod anabl ddwywaith mor debygol o brofi trais domestig â menywod sydd ddim yn anabl, ac maent yn debygol o brofi camdriniaeth dros gyfnod hwy ac o ddioddef mwy o gamdriniaeth ac anafiadau o ganlyniad i gamdriniaeth na dynion anabl.

¹⁴ Roy. S and Ravi.T (2012 Vital Statistics Key finding report on black, minority ethnic and refugee women's and children's experiences of gender based violence (London) Imkaan

Pobl LGBT+

Ariannwyd ymchwil gan Lywodraeth Cymru yn 2014¹⁵ a roddodd sylw i'r rhwystrau sy'n wynebu pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywedol o ran cael mynediad at wasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at rwystrau unigol, rhyngpersonol a strwythurol a diwylliannol ac yn gwneud cyfres o argymhellion i wneud gwasanaethau'n fwy hygyrch, gan gynnwys hyblygrwydd, mynediad cyfrinachol a chynwysoldeb.

Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 (y Ddeddf) yn amlinellu'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol y mae gan bawb yn y DU hawl i'w cael.

Cyfarwyddeb yr UE ar hawliau Dioddefwyr

Mae Cyfarwyddeb yr UE ar hawliau dioddefwyr troseddau, eu cefnogi a'u diogelu yn pennu safonau gofynnol ar gyfer gwasanaethau a ddarperir i gefnogi dioddefwyr. Mae Erthygl 8 yn amlinellu dyletswyddau i sefydlu gwasanaethau cefnogi arbenigol yn ogystal â, neu fel rhan o'r gwasanaethau cefnogi dioddefwyr mwy cyffredinol. Fel gwasanaethau cefnogi cyffredinol, ni ddylai'r gefnogaeth arbenigol sydd ar gael ddibynnu ar gofnodi'r drosedd.

Amcan y rheolau yw bod holl ddioddefwyr troseddau ac aelodau o'u teuluoedd yn cael eu cydnabod a'u trin mewn modd sy'n dangos parch, heb wahaniaethu, yn seiliedig ar ddull sydd wedi'i deilwra i anghenion y dioddefwr.

Mae'r hawliau'n cynnwys:

- Hawliau aelodau teulu dioddefwyr
- Hawl i ddeall a chael eu deall
- Hawl i wybodaeth
- Hawl i gefnogaeth
- Hawl i gymryd rhan mewn achosion troseddol
- Hawliau i gael eu hamddiffyn

Mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol¹⁶ wrth arfer eu holl swyddogaethau, fel sy'n wir am bob awdurdod cyhoeddus arall. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn cefnogi'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae hyn yn cynnwys nod 5 - Cyflawni Cydraddoldeb Rhywiol a grymuso pob menyw a merch, sy'n cynnwys targed ar gyfer trais yn erbyn menywod a merched.

Dylai awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ystyried gofynion o ran dulliau arbenigol o ddarparu gwasanaethau i fenywod wrth iddynt gynnal asesiadau o anghenion ac wrth ddatblygu strategaethau lleol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

¹⁵ <http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140604-barriers-faced-lgbt-accessing-domestic-abuse-services-cy.pdf>

¹⁶ Gweler adran 81(1) Deddf Llywodraeth Cymru 2006

CEDAW

Y Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod¹⁷ (CEDAW) yw'r cytuniad hawliau dynol rhyngwladol sy'n canolbwyntio'n benodol ar gydraddoldeb rhwng menywod a dynion ym mhob maes mewn bywyd. Cyfeirir ato hefyd fel y 'bil hawliau menywod'. Cadarnhawyd CEDAW gan y DU yn 1986. Drwy dderbyn y Confensiwn, mae'r DU wedi ymrwymo i ddefnyddio cyfres o fesurau i ddiweddu pob math o wahaniaethu yn erbyn menywod, gan gynnwys:

- ymgorffori egwyddor cydraddoldeb dynion a menywod yn eu system gyfreithiol, dileu pob deddf sy'n gwahaniaethu a mabwysiadu rhai priodol sy'n gwahardd gwahaniaethu yn erbyn menywod;
- sefydlu tribiwnlysoedd a sefydliadau cyhoeddus eraill i sicrhau bod menywod yn cael eu hamddiffyn yn effeithiol rhag gwahaniaethu; a
- sicrhau eu bod yn dileu pob gweithred o wahaniaethu yn erbyn menywod gan bobl, sefydliadau neu fentrau.

Confensiwn Cyngor Ewrop

Mae Llywodraeth Cymru o blaid egwyddorion Confensiwn Cyngor Ewrop¹⁸ ar atal trais yn erbyn menywod a thrais domestig, a brwydro yn ei erbyn ('Confensiwn Istanbul'); mae'r DU yn un o lofnodwyr y confensiwn. Mae'n amlinellu safonau gofynnol i atal trais yn erbyn menywod, diogelu dioddefwyr ac erlyn cyflawnwyr trais gan gynnwys:

- a) amddiffyn menywod rhag pob math o drais, ac atal, erlyn a dileu trais yn erbyn menywod a thrais domestig;
- b) cyfrannu at ddileu pob math o wahaniaethu yn erbyn menywod a hybu cydraddoldeb go iawn rhwng menywod a dynion, gan gynnwys drwy rymuso menywod;
- c) llunio fframwaith, polisiau a mesurau cynhwysfawr i ddiogelu a chynorthwyo holl ddioddefwyr trais yn erbyn menywod a thrais domestig;
- d) hybu cydweithrediad rhyngwladol gyda golwg ar ddileu trais yn erbyn menywod a thrais domestig; a
- e) darparu cefnogaeth a chymorth i sefydliadau ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith i gydweithredu'n effeithiol er mwyn mabwysiadu dull integredig ar gyfer dileu trais yn erbyn menywod a thrais domestig.

Confensiwn Cyngor Ewrop ar atal trais yn erbyn menywod a thrais domestig, a brwydro yn ei erbyn (Confensiwn Istanbul 2011), yw'r cytuniad mwyaf modern sy'n ymdrin â diweddu trais yn erbyn menywod a merched a thrais domestig. Mae yr un mor berthnasol i fenywod a dynion, ond yn cydnabod mai menywod a merched sy'n dioddef y mathau mwyaf cyffredin o drais yn y byd heddiw. Mae'n cydnabod hawliau a rhwymedigaethau CEDAW.

¹⁷ <http://www.un.org/womenwatch/daw/cedaw/cedaw.htm>

¹⁸ <https://rm.coe.int/168046031c>

Mae'r Confensiwn yn annog gwaith amlsectoraidd, gan gynnwys mudiadau trydydd sector. Mae Confensiwn Istanbul yn mynnu bod gwladwriaethau'n hybu newidiadau i batrymau ymddygiad cymdeithasol a diwylliannol menywod a dynion gyda golwg ar ddileu rhagfarnau, defodau, traddodiadau ac arferion eraill sy'n seiliedig ar y syniad bod menywod yn israddol neu ar stereoteipiau o rolau menywod a dynion. Mae hefyd yn mynnu bod gwladwriaethau'n rhoi mesurau ar waith i ddileu ac atal trais ac yn darparu cyllid digonol a llochesi priodol i rywedd ac ati.

Dylech ystyried egwyddorion y Confensiwn wrth ddrafftio eich strategaeth, yn enwedig fel y maent yn ymwneud ag atal, diogelu a chefnogi.

Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol

Mae'r strategaeth hon yn ystyried yr ymrwymadau allweddol a amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu, yn eu rhoi mewn cyd-destun hirdymor, ac yn amlinellu sut y maent yn cyd-fynd â gwaith gwasanaeth cyhoeddus ehangach Cymru i osod y sylfeini i sicrhau ffyniant i bawb.

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - Strategaeth Genedlaethol

Dyma'r amcanion a nodwyd yn y Strategaeth Genedlaethol:

Amcan 1: Cynyddu ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru, a herio agweddau

Amcan 2: Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthynas ddiogel, gyfartal ac iach ag eraill a bod ymddygiad sy'n arwain at gam-drin yn anghywir bob amser

Amcan 3: Rhoi mwy o sylw i ddwyn cyflawnwyr i gyfrif am eu gweithredoedd a darparu cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad ar sail diogelwch dioddefwyr

Amcan 4: Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar a chymryd camau ataliol

Amcan 5: Hyfforddi gweithwyr proffesiynol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr

Amcan 6: Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau ledled Cymru sy'n gyfannol, yn cael adnoddau priodol, o safon uchel, wedi'u harwain gan anghenion, yn seiliedig ar gryfderau ac yn ymateb i rywedd

Y Gymraeg

Wrth ddatblygu trefniadau comisiynu/gwasanaethau comisiynu, dylai rhanbarthau ystyried pwysigrwydd sicrhau bod cefnogaeth i ddioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gael yn y Gymraeg i bobl y mae angen y gefnogaeth yn y Gymraeg arnynt, ac i'r rheini sy'n dewis gwneud hynny.

Mewn amser, bydd yn ofynnol i'r awdurdodau perthnasol gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Os yw gweithwyr sy'n gweithio i ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ymgysylltu â chydweithwyr, defnyddwyr gwasanaeth neu gynrychiolwyr o gyrrff cyhoeddus eraill sy'n siarad Gymraeg, bydd angen iddynt sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau sy'n berthnasol i'w hawdurdod penodol hwy.

Strategaeth Diweddu Trais yn erbyn Menywod a Merched 2016-2020

Mae'r 'Strategaeth Diweddu Trais yn erbyn Menywod a Merched 2016-2020' gan Lywodraeth y DU yn adeiladu ar nifer o fentrau Llywodraeth y DU gan gynnwys cyflwyno trosedd newydd o ymddygiad gorfodi neu reoli, y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern, Gorchmynion Amddiffyn rhag Trais Domestig o dan Ddeddf Troseddu a Diogelwch 2010, y Cynllun Datgelu Trais Domestig, Gorchmynion Amddiffyn rhag Anffurfio Organau Cenedlu Benywod o dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenedlu Benywod Act 2003 ("Deddf 2003") ac ychwanegu dyletswydd orfodol i gofnodi anffurfio organau cenedlu benywod at Ddeddf 2003 o ganlyniad i Ddeddf Troseddau Difrifol 2015, a chryfhau mesurau i reoli pobl sy'n cyflawni troseddau rhywiol neu bobl sy'n peri risg o niwed rhywiol.

Mae strategaeth Llywodraeth y DU yn amlinellu nifer o gamau gweithredu sy'n berthnasol i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys camau gweithredu sy'n ymwneud â'r **Datganiad Disgwyliadau Cenedlaethol**,¹⁹ adnoddau comisiynu a chyflwyno Cronfa Trawsnewid Trais yn erbyn Menywod a Merched y Swyddfa Gartref.²⁰ Dylech ystyried y disgwyliadau hyn wrth ddrafftio eich strategaeth oherwydd maent yn ymwneud â darparu gwasanaethau, cydweithio, cefnogi a mynediad at wasanaethau.

Yn 2014, cyhoeddodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) "Domestic violence and abuse: how health services, social care and the organisations they work with can respond effectively".²¹ Mae'r canllawiau hyn, sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, yn nodi bod cam-drin domestig yn fater cymhleth y mae angen ei drin yn sensitif gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r gost, mewn termau dynol ac economaidd, mor fawr nes bod hyd yn oed ymyriadau sydd prin yn cael unrhyw effaith yn gost effeithiol.

Yn 2016, cyhoeddodd NICE Safonau Ansawdd pellach yn ymwneud â Cham-drin Domestig²² i ddarparwyr gofal iechyd. Mae gan Lywodraeth Cymru gytundeb gyda NICE sy'n ymwneud â chanllawiau'r Sefydliad, a'r disgwyliad yw y bydd cyrff GIG yng Nghymru yn ystyried argymhellion y Sefydliad yn llawn wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau i gleifion.

Mae canllawiau NICE i bawb sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol sy'n dod i gysylltiad drwy eu gwaith â phobl sy'n profi neu'n cyflawni trais a cham-drin domestig. Mae hyn yn cynnwys: pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau cyfiawnder troseddol a dalfeydd, comisiynwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys grwpiau comisiynu clinigol ac awdurdodau lleol, a staff sy'n

19

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/574665/VAWG_National_Statement_of_Expectations_-_FINAL.PDF

²⁰ <https://www.gov.uk/government/publications/violence-against-women-and-girls-service-transformation-fund>

²¹ <https://www.nice.org.uk/guidance/ph50>
<https://www.nice.org.uk/guidance/qs116>

22

gweithio i wasanaethau arbenigol trais a cham-drin domestig. Gallai'r olaf o'r rhain fod yn gweithio mewn awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol a sefydliadau eraill yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol. Mae'r canllawiau hefyd wedi'u hanelu at bartneriaethau strategol lleol.

Themâu trawsbynciol eraill

Y Diwydiant Rhyw, Camfanteisio a Masnachu Pobl

Y flaenoriaeth yn y cyd-destun hwn yw amddiffyn y cyhoedd; mae pobl sy'n ymwneud â phuteindra'n gallu bod yn arbennig o agored i niwed gan droseddau rhywiol a throseddau treisgar eraill ac, yn wir, yn gallu bod yn ddiodefwr camfanteisio'n rhywiol ar blant neu gaethwasiaeth fodern.

Menywod sy'n fudwyr, yn ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches

Un o'r pryderon mwyaf i ddarparwyr gwasanaethau yw eu gallu i gynorthwyo menywod sy'n fudwyr, yn ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches ac sydd wedi dioddef, neu sydd yn dioddef, trais yn erbyn menywod heb fod arian cyhoeddus ar gael iddynt. Mae'r grŵp hwn yn aml yn dioddef oherwydd materion megis anffurfio organau cenhedlu benywod, trais ar sail 'anrhydedd', fel y'i gelwir, a phriodas dan orfod, yn ogystal â materion cam-drin domestig a thrais rhywiol sydd eisoes yn gymhleth. Mae materion â fisâu a rhwystrau o ran diwylliant, iaith a chyfathrebu yn gallu gwneud pethau'n fwy cymhleth byth ac ynysu'r menywod hyn.

Plant a Phobl Ifanc

Wrth ystyried deilliannau i blant a phobl ifanc o ran gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yr unig ffordd o gyflawni a chynnal gwell deilliannau yw wrth i wasanaethau allweddol weithio gyda'i gilydd i gynllunio'r ddarpariaeth a'i rhoi ar waith.

Er mwyn i'r comisiynwyr rhanbarthol allu cyflawni eu swyddogaethau'n llawn yn y maes hwn, dylent gynnwys cynrychiolaeth fel y bo'n briodol gan yr asiantaethau partner perthnasol megis Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant, Addysg, Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc a mudiadau gwirfoddol priodol.

Mae darparu'r ystod o wasanaethau addysgu, atal a chefnogi i blant a phobl ifanc yn elfen allweddol o ddiogelu a hybu iechyd a lles plant. Ni ddylid gweld diogelu plant fel gweithgaredd sydd ar wahân i hybu eu lles, a dylid rhoi hyn yng nghyd-destun darpariaeth gwasanaethau ehangach. Felly, mae'n hanfodol bod gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cynnal perthynas waith dda â gwasanaethau cymdeithasol a chydweithwyr eraill sy'n ymwneud â'r Byrddau Diogelu Plant.